

# Gwahaniaethu a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) ym Mywydau Plant oedd yn Ffoaduriaid yn y 1930au: Dysgu ar gyfer y Presennol a'r Dyfodol

Anita H. Grosz, Stephanie Homer and Andrea Hammell

Mehefin 2022

## Cyflwyno'r ymchwil

Mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i ACEs penodol megis hiliaeth, gwrthsemitiaeth a senoffobia a brofwyd gan blant oedd yn ffoaduriaid a ffodd am ddiogelwch rhag bygythiadau Sosialaeth Genedlaethol (Natsiaeth) yng Nghanolbarth Ewrop yn y 1930au ac a geisiodd loches yn y DU.

Defnyddiwyd [methodoleg hydredol](#) i ymchwilio [brofiadau hiliaeth a gwahaniaethu](#) a gofir ddegawdau yn ddiweddarach.

Mae'r adroddiad yn awgrymu ac yn cynnig ffyrdd...

- I leihau eithrio ar sail hil, crefydd a statws ffoadur.
- I wella cynhwysiad a derbyniad yr unigolion hyn sy'n cael eu gorfodi i fudo ar frys.

## Cefndir hanesyddol

### Ionawr 1933

Daeth Adolf Hitler a'r Blaidd Natsiaidd i rym yn yr Almaen. Arweiniodd crynhoi polisïau gwrthsemitaidd a gwahaniaethol eraill at ffoi a mudo gorfodol degau o filoedd, gan arwain at argyfwng ffoaduriaid Ewropeaidd.

### Tachwedd 1938

Cytunodd llywodraeth Prydain i ganiatáu i nifer anghyfyngedig o blant dan 17 oed ar eu pennau'u hunain i mewn i'r wlad dros dro a arweiniodd at symudiad o blant a elwir bellach yn **Kindertransport**.



## Dysgu ar gyfer y presennol a'r dyfodol

### Mae paratoi yn allweddol

Mae angen i oedolion a phlant mewn ysgolion, teuluoedd maeth a chymunedau fod yn barod ar gyfer cymhlethdod gwleidyddol a chymdeithasol cefndir y plentyn sy'n ffoadur, profiadau yn eu gwledydd gwreiddiol a phrofiadau o ffoi a mudo gorfodol.

### Mae addysg ynghylch hiliaeth a gwahaniaethu yn angenrheidiol

Mae'n rhaid gwneud oedolion a phlant yn ymwybodol o sut i osgoi gwahaniaethu, ymddygiad bwlio a cham-drin geiriol. Mae'n rhaid tynnu sylw at iaith hiliol a gwahaniaethol a'i archwilio, ac mae angen mynd i'r afael â'r anwybodaeth neu ragfarnau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn sy'n ysgogi'r sarhadau hyn ar lefelau micro, meso a macro ein cymdeithas.

### Mae'n rhaid i brofiadau diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol gael eu parchu

### Mae'n rhaid i leoli plant sy'n ffoaduriaid gael ei ystyried yn ofalus

Dylai fod fetio gofalus o ofalwyr. Dylid rhoi gwybodaeth fanwl i ofalwyr cymeradwy am wlad tarddiad, diwylliant, a phrofiadau niweidiol ôl-ymfudo posibl y ffoadur.

Dylai sefydliadau ffoaduriaid sicrhau bod rhyw fath o gymuned leol sy'n cynnwys ffoaduriaid eraill neu bobl a hanodd o'r un wlad, sy'n siarad yr un iaith, neu sy'n ymarfer yr un grefydd.



## Gwahaniaethu cyn mudo

### Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)

- Trais gwahaniaethol tuag at eu hunain.
- Tystio i ymosodiadau ar eraill.
- Dadleoli a cholli cartref.
- Colli ffrindiau.
- Diwedd addysg.
- Amddifadedd o anghenion sylfaenol.

## Gwahaniaethu ar ôl ymfudo

### Gwrthsemitiaeth

- Gwrthsemitiaeth oedd y prif fath o ragfarn hiliol a brofodd blant oedd yn ffoaduriaid ond nid oedd yn rhy gyffredin yn eu myfyrdodau ar eu profiadau ôl-ymfudo.
- Soniodd sawl adroddiad sut y gwnaed sylwadau tramgwyddus wrth fynd heibio ac roedd yn ymddangos bod y plant oedd yn ffoaduriaid eu hunain yn anwybyddu'r sylwadau hyn, gan eu galw'n ddiwbys neu'n 'wirion'.

### Gwrthestrion

- Nid oedd gwahaniaethu a cham-drin gwrthestrion yn anghyffredin mewn lleoliadau ysgolion. Roedd plant eraill yn gweld y ffoadur yn gyntaf ac yn bennaf yn siarad Almaeneg heb ddeall yn iawn beth achosodd iddynt ffoi neu'r ffaith efallai nad oeddent yn uniaethu fel Almaenwyr.
- Roedd plant yn cael eu gorfodi neu eu hannog i newid eu henw i ryw beth llai Almaeneg neu lai estron fel ymdrech i ddileu neu ddiystyru'r diwylliant a phersona ethnig y plentyn.

### Gwrthffoadur

- Y math hwn o wahaniaethu gafodd ei gofio fwyaf. Mae'n fath o arallrwydd sy'n debygol o fod wedi cael ei deimlo'n gryfach mewn bywyd bob dydd.
- Roedd plant oedd yn ffoaduriaid yn arbennig o sensitif am eu statws ffoadur gydag un yn adrodd bod yn well ganddo guddio ei hunaniaeth a pharhau i fod yn 'ffoadur cudd'.

